Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ATODIAD

## Cynlluniau cymwys sy'n cael eu hargymell i dderbyn cyllid:

| Enw'r Ymgeisydd | Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r Prosiect | Cyfanswm Costau'r Prosiect | Cais cyllid ORP | Nifer y cartrefi ar y grid nwy | Nifer y cartrefi nad ydynt ar y grid nwy |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bro Morgannwg | Ôl-osod Hybrid yn y Fro Wledig | Mae'r cynnig hwn yn cynnwys ategu 37 o systemau gwresogi presennol nad ydynt ar y grid nwy gyda phympiau gwres ffynhonnell aer i greu systemau gwresogi hybrid a gosod systemau ynni deallus mewn sampl eang o'u stoc tai. Bydd hyn yn golygu bod y meddianwyr yn cadw'r ffynhonnell wresogi gyfarwydd bresennol gan fanteisio ar gostau rhedeg is a'r gostyngiadau carbon sy'n gysylltiedig â systemau gwresogi modern niwtral o ran carbon, gan ddarparu data a 'llwybr' i ddatgarboneiddio eu cartrefi erbyn 2030. | £613,000 | £393,053 | 96 | 41 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Prosiect ôl-osod mewn eiddo gwag | Nodi system arloesol y gellir ei ailadrodd sy'n gwella effeithlonrwydd ynni ac yn lleihau allyriadau carbon un o'n mathau tai mwyaf cyffredin. Y nod yw dod o hyd i system y gellir ei ailadrodd ar draws y math hwn o stoc tai ar raddfa fawr ac yn gyflym i liniaru tlodi tanwydd rhai o'u tenantiaid sy'n agored i niwed.. | £1,075,695 | I'w gadarnhau | 6 | 1 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Pont y Brenin, Llangoed a Maes Gwyn Llanddona a Min y Môr, Aberffraw. | Eiddo nad ydynt ar y grid nwy gydag LPG fel prif danwydd. Mae'r eiddo sy'n rhan o'r cais hwn yn rhan o fuddsoddiad cyfunol gwerth £6.78m ar ddau gontract cynnal a chadw sydd wedi cychwyn ar y safle ac yn integreiddio nodau datgarboneiddio i'r cynllun gan dynnu ar gyllid allanol fel RHI ac ECO3. | £6,700,000 | £534,774 | 0 | 120 |
| Cynllun ar y cyd rhwng 26 LCC ac 1 Cymdeithas Dai | ORP - Optimised Retrofit Pathfinder | Mae maint y cynllun hwn ar y cyd yn rhoi cyfle i ddatblygu dulliau arolygu a rheoli y gellir eu defnyddio i bennu'r mesurau, y cynhyrchion a'r amserlen gywir (wedi'u halinio â rhaglenni RMI) ar gyfer cartrefi unigol. Caiff y rhain eu treialu drwy'r cylch hwn o ORP drwy osod mesurau a systemau ynni deallus ar draws ystod eang o wahanol fathau o eiddo ac ar draws Cymru gyfan. Mae'r cynnig yn nodi arfer da o ran systemau rheoli ac ariannu (gan gynnwys defnyddio cyllid benthyciadau) a gaiff ei rannu ar draws y sector. Mae'n ymrwymo i ddatblygu fframweithiau llafur a materol arloesol sydd â'r nod o greu 'economi werdd' drwy uwchsgilio busnesau bach a chanolig a gweithgynhyrchwyr yng Nghymru, nid fel is-gontractwyr i sefydliadau mwy ond â strwythur 'mentora'. Bydd y fframweithiau hyn yn agored i holl sefydliadau'r sector cyhoeddus. | £17,194,227 | £9,000,000 *£7m grant / £2m benthyciad* | 968 | 404 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Atgyweiriadau Allanol Sylweddol + ORP mewn tai cyngor | Mae'r cynllun yn ehangu eu rhaglen bresennol i adnewyddu toeon drwy ychwanegu paneli PV a chyfarpar storio mewn batris. Roedd eu contractau ar gyfer y gwaith RMI eisoes yn cael eu tendro ond mae cyflwyno ORP wedi gofyn am newidiadau, yn benodol i'r gofyniad i sicrhau'r manteision lleol mwyaf posibl a gwella sgiliau cadwyn gyflenwi a DLO presennol. Mae'r cynnig yn datblygu system sy'n alinio eu rhaglenni cynnal a chadw a datgarboneiddio drwy osod systemau ynni deallus ar draws eu stoc tai. Mae'n integreiddio'r cyllid yn eu rhaglen barhaus a fydd yn dangos sut y mae angen i'w hamserlenni RMI fod yn hyblyg, ac ymateb i gyfleoedd ariannu wrth iddynt godi. | £2,001,250 | £814,250 | 80 | 25 |
| | | **CYFANSWM** | **£27,584,172** | **£10,742,077** | **1150** | **591** |
| | | | | | **Cyfanswm cartrefi - 1741** | |